# Adroddiad Arolygu

**Louise Griffiths**

**Aberteifi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Hydref 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad hwn. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac yn ymddiddori yn dda yn eu gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau manwl sy'n hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus. Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ac mae'n rhannu ei gwerthoedd am ddysgu ac ymddygiad gyda'r plant.

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae llawer o le a digon o gyfleusterau er mwyn annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'r teganau a'r offer chwarae yn briodol i oedran y plant ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn gyfeillgar.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol ac yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi darlun cywir o'r gosodiad. Mae'r gwarchodwr plant yn cydweithio'n dda â'r rhieni i roi'r wybodaeth iddynt am y gwasanaeth yn ogystal ag am lesiant a gofal eu plant.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn cael llawer o hwyl yn y lleoliad. Maent yn mwynhau bod yng nghwmni'r gwarchodwr plant ac yn ei chynnwys yn eiddgar yn eu chwarae. Mae'r plant yn ffurfio perthynas gynnes a chariadus gyda'r gwarchodwr plant a'r plant eraill. Maen nhw'n swatio gyda'r gwarchodwr plant pan fyddan nhw'n dechrau teimlo'n flinedig. Mae'r plant yn adnabod arferion y lleoliad yn dda sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel, yn gyfforddus ac wedi ymlacio. Mae rhai plant yn defnyddio ystumiau di-eiriau i ddangos yr hyn y maent ei eisiau neu ei angen oherwydd eu hoedran a chyfnod eu datblygiad. Er enghraifft, pwyntio at deganau neu estyn eu breichiau i gael cysur.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn rhyngweithio'n dda. Maen nhw'n gwenu, yn clebran ac yn codi dwylo pan fyddwn yn cyrraedd y lleoliad. Maent yn chwarae'n hapus, gan chwerthin gyda'i gilydd. Maent yn mwynhau cymdeithasu amser bwyd; maent yn eistedd yn braf wrth y bwrdd neu yn y cadeiriau uchel, gan ymarfer bwyta'n annibynnol. Mae’r plant yn teimlo'n gartrefol yng nghartref y gwarchodwr plant ac yn teimlo’n gyfforddus gyda’r gwarchodwr plant a’i theulu.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd dyddiol i fwynhau allan yn yr awyr agored. Maent yn chwarae yn yr ardd fawr yn chwilio am fwydod ac yn mwynhau teithiau cerdded ar fferm y gwarchodwr plant i ymweld â’r anifeiliaid. Mae'r plant yn amlwg yn mwynhau eu chwarae ac yn elwa o ddewis amrywiol o gyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn ymddiddori yn eu gweithgareddau ac yn cymryd rhan lawn ynddynt. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a ddewiswyd ganddynt a thasgau o dan arweiniad yr oedolyn, ac yn canolbwyntio arnynt am gyfnodau priodol o amser. Er enghraifft, mae rhai o'r plant yn dewis cael eu dwylo wedi'u paentio er mwyn gwneud llun print o galon, tra bo eraill yn mwynhau chwarae gyda blociau chwarae. Mewn ardal arall, mae un plentyn wedi ymgolli'n llwyr mewn chwarae gyda doli mewn cadair wthio, gan fynd o amgylch yr ystafell chwarae. Fodd bynnag, prin yw cyfleoedd y plant i fod yn greadigol ar adegau, ac mae rhai o'r gweithgareddau yn cael eu harwain gan oedolion yn ormodol. Er enghraifft, nid oedd y plant yn defnyddio'r brwsh paent i baentio eu dwylo eu hunain, am fod y gwarchodwr plant wedi gwneud hyn drostynt.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda, gan eu galluogi i wneud pethau drostyn nhw eu hunain. Er enghraifft, ceisio gwisgo eu cotiau a'u hesgidiau eu hunain i chwarae yn yr awyr agored.
Mae’r plant yn ymddiddori yn eu hamgylchedd, yn aml yn cadw cyswllt llygad â’r gwarchodwr plant, ac yn dilyn symudiadau’r gwarchodwr plant wrth chwarae ochr yn ochr â’i gilydd.

## Gofal a Datblygiad Da

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi rheoli ymddygiad da, ac mae'n ei roi ar waith ac yn ei ddilyn yn gyson. Mae'n ddigynnwrf ac yn ofalgar bob amser, ac mae'n cyfathrebu â'r plant yn glir. Mae'r gwarchodwr plant yn canmol plant yn gyson ac yn dangos esiampl gadarnhaol. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddi ffurflenni caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys teithiau, triniaeth feddygol frys a defnyddio eli haul.

Mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi trefniadau glanhau ac arferion hylendid da ar waith, ac mae'n dilyn amserlen lanhau ddyddiol ac wythnosol. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod y plant yn gwybod bod angen dilyn arferion hylendid sylfaenol, ac mae'n sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo yn rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn sychu trwynau'r plant yn aml ac yn gwaredu'r hancesi yn ddiogel. Wrth newid cewynnau, mae'r gwarchodwr plant yn gwisgo menig a ffedog untro i sicrhau rheolaeth dda ar heintiau. Sychodd y gwarchodwr plant y mat newid cewynnau gan ddefnyddio chwistrell gwrthfacterol ar ôl ei ddefnyddio.

Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn ofalgar. Mae'n gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r gwarchodwr plant yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd, gan ddefnyddio ymadroddion fel *merch dda* a *da iawn* i ganmol ac annog y plant. Mae'n hyrwyddo cwrteisi. Gwelsom y gwarchodwr plant yn gwrando’n astud ar y plant a mynegodd frwdfrydedd am yr hyn yr oeddent yn ei rannu gyda hi. Mae'n cynnig cysur a mwythau i'r plant pan fyddant yn cwympo neu'n cynhyrfu ac yn tynnu sylw pan fydd plant yn mynd yn rhwystredig neu'n ansefydlog gyda gweithgaredd.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac mae'n hyderus i drafod datblygiad y plant â'r rhieni. Mae'n cynllunio ar gyfer y camau nesaf y plant ac wedi datblygu dull o fonitro cynnydd y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am eu plentyn. Mae'n rhoi sicrwydd i'r plant ac yn eu cefnogi wrth iddynt wneud gweithgareddau ac arferion dyddiol, gan annog eu hannibyniaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant allan ar y fferm yn rheolaidd am dro ac i ymweld â'r anifeiliaid.

## Yr Amgylchedd Da

Mae cartref y gwarchodwr plant yn glyd, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r amgylchedd yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn lân. Mae hi wedi cwblhau asesiadau risg manwl ar gyfer yr amgylchedd, diogelwch tân, teithiau, ac ymweliadau y mae hi'n eu hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn cwblhau driliau tân yn rheolaidd ac yn nodi pa ddiwrnodau y cwblhawyd y rhain. Fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth fanwl ei chofnodi yn y cofnod ymarfer tân. Mae ganddi weithdrefnau brys ar waith gan gynnwys ffurflenni caniatâd meddygol brys ar gyfer pob plentyn. Mae ei dealltwriaeth o ddiogelu ac amddiffyn plant yn gadarn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel. Er enghraifft, mae hi'n cadw'r drws ffrynt yn ddiogel gyda system gloi ac yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch fel gwiriadau boeleri yn cael eu cwblhau. Mae cartref y gwarchodwr plant wedi'i leoli ar fferm laeth wledig ac felly mae'r man awyr agored yn darparu cyfleoedd da ac eang i blant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod digon o ardaloedd chwarae dan do yn yr amgylchedd er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae'r gwarchodwr plant wedi trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae i'r plant. Mae'n darparu amgylchedd sy'n cefnogi annibyniaeth y plant yn ogystal â gweithgareddau chwarae addas. Gall y plant gael gafael ar adnoddau o'r storfa wedi'i labelu yn yr ystafell chwarae. Mae yna amrywiaeth eang o deganau megis blociau, doliau, cadeiriau gwthio, llyfrau, teganau reidio, garej, gweithgareddau edafu, anifeiliaid, tractorau, a phosau.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cyfarpar yn addas ar gyfer ystod oedran y plant. Er enghraifft, mae step yn yr ystafell ymolchi i gynorthwyo plant wrth olchi dwylo a defnyddio'r toiled, gatiau grisiau i sicrhau na all plant ddringo'r grisiau a gwarchodwyr tân. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y teganau a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r ardal awyr agored yn ofod mawr yng nghefn yr eiddo. Mae gan y gwarchodwr plant gynlluniau i ddatblygu'r ardal allanol ymhellach gyda grant y mae wedi'i dderbyn yn ddiweddar. Mae wedi sicrhau diogelwch y plant sy'n chwarae yn yr ardal hon drwy godi ffens a giât o amgylch y terfyn allanol. Yn yr ardd, caiff y plant ddewis eang o adnoddau a theganau i chwarae â nhw gan gynnwys, trampolîn i blant hŷn, pwll tywod, peli, teganau reidio a llawer o botiau planhigion y mae'r gwarchodwr yn eu defnyddio'n rheolaidd i dyfu cynnyrch gyda'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardal chwarae awyr agored mor aml â phosibl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad y mae'n ei reoli'n dda, gan sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol. Mae ganddi bolisïau effeithiol ar waith a gwelsom fod y rhain yn cael eu dilyn yn ymarferol a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae datganiad o ddiben ar waith, sy'n egluro ei lleoliad gwarchod plant ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig. Mae'n wybodus am ei chyfrifoldebau rheoliadol.

Mae gan y gwarchodwr plant yr holl waith papur perthnasol. Er enghraifft, roedd wedi cwblhau cofnodion cywir o bresenoldeb a gwybodaeth bersonol y plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi trefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac mae ganddi ddogfennau cerbyd priodol. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i rôl mewn perthynas â diogelu data, cyfrinachedd a chadw data, ac mae'n sicrhau bod holl wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer pob aelod o'r cartref. Drwy drafod â’r gwarchodwr plant, gwelsom ei bod yn agored i syniadau newydd ac yn croesawu’r angen i wella’n barhaus. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ansawdd arwain a rheoli'r lleoliad yn addas.

Mae gan y gwarchodwr plant system ar gyfer rhoi'r broses hunanwerthuso ar waith. Adolygodd ansawdd y gofal ym mis Mai 2022 ac mae’n bwriadu anfon holiaduron i ystyried barn rhieni a phlant er mwyn cwblhau adolygiad eleni. Mae ganddi ddiwylliant cadarn o hunanddatblygiad parhaus. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'n sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda ac yn hysbysu rhieni'n dda trwy drafod yn rheolaidd. Dywedodd rhieni wrthym fod eu plant wrth eu bodd yn mynd at y gwarchodwr plant ac yn siarad yn hapus am eu diwrnod yn enwedig eu gallu i fwydo'r anifeiliaid. Mae’r gwarchodwr plant yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson gyda’r plant ac yn gweithio tuag at fodloni Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Sicrhau bod cydbwysedd gwell rhwng ymyrraeth oedolion ac arweinydd creadigol plant mewn gweithgaredd dan gyfarwyddyd.

A2 Sicrhau bod gwybodaeth fanylach yn cael ei chofnodi yn y cofnodion ymarfer tân.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/03/2023